

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E
Webster

Emyr.J.Webster@rctcbc.gov.uk

Gofynnwch am/Please ask for: A McGowan

Fy Nghyf/My Ref: Eich Cyf/Your Ref: Dyddiad/Date:

101006595222

Annwyl Gynghorydd,

Cyfeiriaf at y ddeiseb a gyflwynoch chi i'r Cyngor yn gofyn am adolygiad o symudiadau traffig a pharcio yn Nhreorci.

Mae'r Cyngor yn effro i'r anawsterau y mae preswylwyr a'r rheiny y mae angen iddyn nhw deithio trwy Dreorci yn eu hwynebu, ac mae wedi cynnal astudiaethau yn y gorffennol i wella llif y traffig. Canolbwyntiodd yr astudiaethau yma ar ardal Stag Square, ond methon nhw â dod o hyd i ddatrysiad ymarferol.

Mae rhagor o gyllid bellach ar gael i archwilio a dod o hyd i ragor o opsiynau posibl er mwyn gwella llif y traffig, a bydd y gwaith yma'n cael ei gynnal yn fuan. Serch hynny, rhaid nodi nad oes datrysiad syml a bydd angen i unrhyw welliannau posibl fod yn gyraeddadwy ac yn fforddiadwy.

Yn ogystal â gwella llif y traffig, bydd yr astudiaeth hefyd yn edrych ar ffyrdd o annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth amgen yn fwy.

Bydd raid ystyried yn ofalus yr effaith y bydd cyflwyno unrhyw fesurau yn ei chael ar strydoedd cyfagos a gallu preswylwyr i symud yn hawdd.

O ran parcio, mae'r Cyngor yn derbyn nifer o geisiadau am gyflwyno cynlluniau megis lleoedd parcio i breswylwyr yn unig ledled y fwrdeistref, ac mae wedi dechrau rhaglen yn ddiweddar i adolygu cynlluniau parcio i breswylwyr presennol a chyflwyno cynlluniau newydd.

Gwasanaethau Rheng-flaen

Ffôn/Tel: 01443 425001

Frontline Services

Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Roger Waters BSc CEng MICE

Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng-flaen | Director – Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Gymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



O ganlyniad i'r galw cynyddol am yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, cytunwyd y bydd swyddogion yn canolbwyntio ar gwblhau'r adolygiad o gyfleusterau parcio i breswylwyr presennol ym Mhontypridd ac ar gyflwyno'r cyfleusterau hynny yn ardaloedd Tonypandy, Porth a Ffynnon Taf, yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Ar ôl cwblhau'r prosiectau yma rydyn ni wedi ymrwymo iddyn nhw, byddwn ni'n ystyried ardaloedd eraill yn Rhondda Cynon Taf yn unol â'r meini prawf cymhwysedd, a bydd y rhain yn cael eu hasesu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Does dim penderfyniad wedi cael ei wneud o ran yr ardaloedd sydd i'w cynnwys ond mae ardal Treorci wedi cael ei nodi'n lleoliad posibl ar gyfer adolygiad o drefniadau parcio yn y gorffennol, a bydd yn parhau i fod ar y rhestr o leoliadau i'w hystyried.

Yn ogystal â'r uchod, bydd angen i unrhyw adolygiad o drefniadau parcio ystyried y ffaith bod gan ardal Treorci eiddo manwerthu a phreswyl a'r effaith y byddai cyflwyno unrhyw gyfyngiadau ar barcio yn ei chael ar y ddau fath o eiddo yma. Felly mae'n bosibl na fyddai unrhyw welliannau posibl sy'n cael eu nodi yn addas i bawb.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth a gofynnaf i chi, a chithau'n brif ddeisebydd, roi'r wybodaeth yma i'ch cyd-ddeisebwyr.

Yn gywir